## ‘DOLWYDDELAN YN EI BLODAU’

Byddwn yn cynnal cyfarfod ar
ddydd Sadwrn, Mawrth y 25ain yn y Pafiliwn (ger yr ysgol)
10.30yb tan 11.30yb . . . lle byddwn yn estyn gwahoddiad i aelodau newydd ymuno, neu’r rheiny sy’n awyddus i ddysgu mwy am fod yn rhan o’n grŵp o arddwyr bodlon.

Mae ‘Doli yn ei Blodau’ yn grŵp o drigolion yr ardal sy’n cwrdd o bryd i’w gilydd yn ystod y flwyddyn i arddio ger yr orsaf drenau, y senotaff ac ambell i le arall yn y pentref. Rydym hefyd yn trin y blychau planhigion o amgylch y dref tra bod aelodau eraill yn gyfrifol dros greu’r amryw arddangosion ‘achlysur arbennig’ ger mynedfeydd y Pentref ar yr A470.
Rydym yn trefnu digwyddiad codi ysbwriel yn achlysurol hefyd.
Mae croeso mawr i aelodau newydd ymuno gyda ni.

Angie Burke

## BAW CŴN!

Soniodd nifer o’r pentrefwyr bod mwyfwy o faw cŵn yn cael ei adael ar lwybrau troed, lonydd bach a dolydd. Mae’r Cyngor Cymuned yn darparu biniau coch ac mae unigolyn o’r pentref yn eu gwagio’n wirfoddol gan sicrhau bod cynnwys y biniau wedi’i osod yn barod er mwyn i Gyngor Conwy ei gasglu. Mae yna hefyd finiau Cyngor Conwy gyferbyn â SPAR ac yn yr orsaf drenau.
Gofynnwn yn garedig ichi eu defnyddio.
Helpwch ni i ddiogelu’r defaid ac ŵyn a sicrhau bod ein pentref yn parhau i edrych yn ddeniadol. Diolch yn fawr.

## GWENOLIAID YN DYCHWELYD

Rydym ni yma yn Nolwyddelan yn lwcus iawn bod swp o wenoliaid yn dychwelyd yma pob blwyddyn ym mis Ebrill / Mai gan godi pac unwaith eto ym mis Medi. Gofynnwn yn garedig i’r rheiny ohonoch sy’n adfer / atgyweirio eich cartrefi ar hyn o bryd i ddwyn hyn i ystyriaeth. Beth am ychwanegu blwch nythu i wenoliaid at eich rhestr o dasgau? Mae’n bosib y gallai eich cartref fod yn un o’r llochesi olaf i bâr sy’n magu. Gallwch chi fynd ati i gynnal gwaith adeiladu a allai helpu i atal y dirywiad yn ein gwenoliaid gwarchodedig ledled y byd.
Neu efallai gallwn ni annog y rheiny ohonoch sy’n hoff o wenoliaid i fynd ati i osod blwch. Mae gwybodaeth helaeth ar y we i unrhyw un sydd â diddordeb mewn diogelu’r gwenoliaid www.swift-conservation.org
Gallwch fwrw golwg ar fanylion am sut i greu blwch gwenoliaid eich hun ar dudalen 9.

Val Mills